# Astudiaeth achos

## Hammad Rind



Archwiliad o sut y mae Llenyddiaeth Cymru wedi cefnogi taith Hammad i ddysgu'r Gymraeg.

# Hammad Rind

Ganed Hammad Rind ym Mhwnjab, Pacistan, ac ar hyn o bryd mae'n byw yng Nghaerdydd. Mae ei straeon, erthyglau ac adolygiadau o lyfrau wedi ymddangos mewn nifer o gylchgronau yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n arwain gweithdai yn rheolaidd ar ysgrifennu creadigol, adrodd straeon a llenyddiaeth y Dwyrain.

Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf, Four Dervishes, gan Seren yn 2021. Dywedodd Jon Gower ei fod "Heb os, yn un o'r nofelau fwyaf nodedig i ddod o Gymru ers sawl troad lleuad." Mae'n gweithio ar ei ail nofel ar hyn o bryd.


Mae'n gallu siarad naw iaith, gan gynnwys Wrdw, Pwnjabeg, Hindi, Perseg, Twrceg, Eidaleg a Ffrangeg, ac mae'n ychwanegu dilysrwydd ac unigolrwydd i'w waith drwy ymgorffori elfennau o'r ieithoedd a'r diwylliannau gwahanol hyn yn ei waith ysgrifenedig.

# Cefndir

Dros y blynyddoedd, mae Hammad wedi cymryd rhan mewn nifer o'n rhaglenni datblygu awduron.

Yn ôl yn 2019, mynychodd Hammad daith i Ŵyl y Gelli a drefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru mewn partneriaeth â'r ŵyl ar gyfer aelodau o'r grŵp meic agored 'Where I'm Coming From'. Roedd y daith yn gyfle euraidd i gwrdd ag awduron eraill o Gymru ac fe lwyddodd roi hwb i hyder Hammad a chynyddu ei fuddsoddiad yn ei waith.





Yn fuan wedi hynny, enillodd ei le ar raglen beilot Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli. Defnyddiodd y nawdd a dderbyniodd i gynnal cyfres o weithdai ysgrifennu a darlunio i blant o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn Grangetown gyda'r nod o ddathlu amrywiaeth amlddiwylliannol yr ardal.

Yn 2021 Cafodd ei gomisiynu gennym i redeg prosiect o'r enw Morfil Trelluest, oedd yn defnyddio'r celfyddydau – ysgrifennu creadigol a phaentio – er budd trigolion yn Grangetown sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl neu deimladau o berthyn fel aelodau o gymunedau diasporig.




Cliciwch i chwarae'r fideo

Yn 2023, cafodd Hammad ei ddewis i fod yn un o garfan Cynrychioli Cymru, rhaglen sy'n darparu cyfleoedd i awduron sydd heb gynrychiolaeth deg yn y sector llenyddol i ddatblygu eu crefft a'u dealltwriaeth o'r diwydiant llenyddiaeth a chyhoeddi.

Yn fwyaf diweddar, roedd Hammad yn un o garfan Awduron wrth eu Gwaith Gwyl y Gelli, rhaglen sy'n rhoi cyfle i awduron fynychu gweithdai gyda chyhoeddwyr, asiantiaid ac, yn hollbwysig, gyda rhai o'r artistiaid rhyngwladol sefydledig sy'n cymryd rhan yn yr ŵyl.

*"Mae Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad cefnogol sydd wedi mynd tu hwnt i'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth rannu cyfleoedd ac adnoddau ac wrth fy annog ar fy nhaith."*

# Cefndir - Dysgu Cymraeg a Cynrychioli Cymru

Mae rhaglen ddatblygu awduron ‘Cynrychioli Cymru’ yn carlamu tuag at ei phumed rownd bellach, gyda’r garfan ddiweddaraf o awduron sydd am dderbyn blwyddyn o ddatblygu dwys yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2025. Mae’r rhaglen yn un ddwyieithog, ar agor i awduron sy’n ’sgwennu yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Un elfen hyfryd o gymysgu awduron sy’n gweithio yn y ddwy iaith yw’r ffaith fod sylw yn cael ei roi i’r iaith Gymraeg, â’r budd o ymarfer a chyfansoddi yn yr iaith yn cael ei amlygu i’r garfan o awduron sy’n ysgrifennu yn y Saesneg. Mae’r rhaglen wedi gwneud gwaith da o ran pontio’r cymunedau o awduron yn Nghymru sy’n ysgrifennu yn y naill iaith neu’r llall.

Un elfen naturiol o’r cymhathu hwn rhwng y grwpiau iaith oedd fod awduron di-Gymraeg yn awyddus i ddysgu mwy am y Gymraeg, a dysgu mwy o Gymraeg. A dyna lle y cychwynnodd y berthynas arbennig rhwng Llenyddiaeth Cymru a’r Ganolfan Ddysgu Gymraeg Genedlaethol.

Mae’r Ganolfan yn rhannu gweledigaeth Llenyddiaeth Cymru o fod eisiau rhoi mwy o gyfleoedd i unigolion sy’n cael eu tangynrychioli – felly mae cydweithio ar raglen Cynrychioli Cymru yn gyfle euraidd i ddatblygu siaradwyr Cymraeg newydd o gefndiroedd amrywiol.

Mae Cynrychioli Cymru yn raglen sy’n cynnig hyfforddiant llenyddol dros gyfnod o flwyddyn, yn cynnwys mentor personol ac ysgoloriaeth o £3K. Ond yn ychwanegol i’r pecyn datblygu crefft a gwybodaeth lenyddol, rydym hefyd yn cynnig i’r awduron ymuno â dosbarthiadau dysgu Cymraeg yn rhad ac am ddim.




Cliciwch i chwarae’r fideo

Mae'r dosbarthiadau yn digwydd ar-lein, gyda chwrs preswyl yn Nhŷ Newydd yn ychwanegiad i'r dysgu digidol ar ddiwedd y cyfnod. Eleni, mae'r cwrs yn canolbwyntio ar lefel Mynediad – sef siaradwyr Cymraeg newydd sbon.

Ond dros y blynyddoedd diwethaf, mae dysgwyr ar wahanol lefelau wedi cymryd rhan mewn dosbarthiadau Cymraeg drwy raglen Cynrychioli Cymru – yn cynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl oedd wedi colli hyder yn eu defnydd o'r iaith. Mae ambell un o'r dysgwyr rheiny bellach yn arbrofi gyda'r Gymraeg yn eu hysgrifennu.



# Holi Hammad

Fe wnaethom ni ddal i fyny gyda Hammad i glywed rhagor am ei resymau dros fynd ati i ddysgu'r Gymraeg, a sut mae'n gobeithio bydd ei siwrne gyda'r iaith yn datblygu yn y dyfodol.

# Cwestiynau

1.Beth wnaeth eich ysgogi chi i fod eisiau dysgu Cymraeg?

2.Oes na gwrs/prosiect/rhaglen gan Llenyddiaeth Cymru wedi eich helpu chi ar y daith i ddysgu'r iaith?

3.Beth sydd nesaf i chi o ran defnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd/gwaith fel awdur?




Cliciwch i chwarae'r fideo

## Prif bwyntiau:

- Wedi bod yn dysgu Cymraeg am flwyddyn (yn unig)
- Dysgu ieithoedd yn rhoi mwynhad iddo - gallu siarad 9 iaith!
- Un o resymau pam ei fod wedi penderfynu dysgu Cymraeg oedd y ffaith ei fod yn byw yng Nghaerdydd a bod ei blant yn mynychu ysgol Gymraeg.
- Wedi bod yn rhan o raglen Cynrychioli Cymru yn 2023
- Un o uchafbwyntiau'r rhaglen oedd y dosbarthiadau dysgu Cymraeg
- Aros yn Nhŷ Newydd wedi bod yn gyfle euraidd i ymarfer ei Gymraeg ar lafar
- Mwynhau darllen drwy gyfrwng y Gymraeg
- Wedi cychwyn ysgrifennu'n Gymraeg, e.e. straeon i blant, erthygl ar gyfer cylchgrawn
- Awyddus i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei fywyd o ddydd i ddydd ac yn ei waith fel awdur.

# Ar y gweill gan Hammad

Yn dilyn ei lwyddiant yn dysgu'r Gymraeg ac yntau bellach yn rhugl, dyma rai o'r cyfleoedd sydd wedi codi i Hammad yn ddiweddar…

Cafodd Hammad ei ddewis i ysgrifennu stori fer i blant sy'n cael ei gynnwys ar Stori Tic Toc (Cyw, s4c) o'r enw 'Robin Be' Bynnag'.









LLEISIAU NEWYDD BARN

**'Galar hŷn nag wylo' – Cilmeri a barddoniaeth y Shia**

Fel siaradwr a darllenwr Cymraeg newydd, darganfûm 'Cilmeri' gan Gerallt Lloyd Owen yn hwyrach nag y byddwn wedi hoffi. Wrth ddarllen cyflwyniad i farddoniaeth Gymraeg yn ddiweddar, des ar draws rhai llinellau o'r gerdd hon a'm swynodd. Roedden nhw wedi taro tant â mi ac nid yn unig oherwydd eu harddwch clywedol a'u pŵer. Yn eu dwyster dwfn ynglŷn â thrasiedi canrifoedd oed, fe wnaethon nhw hefyd fy atgoffa o'r traddodiad barddol y tyfais i fyny ag ef. Roedd rhai llinellau yn teimlo'n ingol o gyfarwydd. Er enghraifft, 'Cnawd yn y co' nid yw'n cau,' a'r sôn, wrth drafod cwymp Llywelyn, am 'ail-fyw ei glwyfau o/ Â galar hŷn nag wylo'.

Roedd y llinellau hyn yn fy atgoffa o glwyfau eraill, o gorff clwyfedig arall, sy'n cael ei goffáu ym marddoniaeth farwnadol y Shia yng ngorllewin a de Asia.

*Mwy*

**Hammad Rind**

Mae Hammad hefyd yn un o leisiau newydd cylchgrawn Barn, wedi iddo ysgrifennu erthygl ddiddorol am hanes Cilmeri a barddoniad y Shia.

# Casgliad

Mae taith Hammad i ddysgu'r Gymraeg mewn cyn lleied o amser yn un ysbrydoledig iawn.

Rydym yn falch o fod wedi chwarae rhan fach yn nhaith Hammad i ddysgu'r iaith ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei yrfa ysgrifennu fel awdur, yn ogystal â rhoi'r cyfle iddo ymarfer ei Gymraeg ar lafar yn Nhŷ Newydd mewn modd anffurfiol a naturiol sydd wedi bod yn brofiad euraidd iddo.